CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

Archwilio@Sir Ddinbych
2010/11

Hydref 2011

Neges oddi wrth yr Hyrwyddwr Archwilio

Annwyl Breswylydd,

Mae Pwyllgorau Archwilio Sir Ddinbych yn archwilio nifer o wahanol bynciau'n fanwl er mwyn ceisio gwella gwasanaethau i drigolion y Sir. Yn y ddogfen hon rydym yn sôn wrthych am rai o'n gweithgareddau yn ystod 2010/11. Gobeithio'n wir y cewch bleser wrth ei darllen ac y cewch hefyd syniad da o'r gwaith rydym yn ei wneud.

Fel arfer, mae'n cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac mi hoffwn weld rhagor ohonoch yn dod i'n cyfarfodydd er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin â'r materion sydd o'r pwys mwyaf i chi a'r gymuned.

Ar ôl darllen y ddogfen, os teimlwch y dylem ni fod yn edrych ar wasanaeth neu bwnc penodol, rhowch wybod i ni. Mi allwch wneud hynny drwy lenwi'r ffurflen ar gefn y daflen hon, cysylltu â ni dros y ffôn neu drwy ein e-bostio, p'run bynnag sydd haws i chi. Mae'r manylion cyswllt ar y ffurflen.

Yn ddiffuant,

Y Cynghorydd David Smith
Hyrwyddwr Archwilio

Archwilio

Beth yw archwilio?

Mae Archwilio'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor ac mae'n chwarae rôl hanfodol mewn gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio yn y Sir, gan drigolion, gan bobl sy'n gweithio yn Sir Ddinbych neu rai sydd ond yn ymweld â'r ardal ac â'n toreth o atyniadau.

Mae'r pwyllgorau archwilio'n adolygu penderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan y Cabinet, a gallant gyflwyno argymhellion i'r Cabinet er mwyn sicrhau fod trigolion y sir yn cael y gorau o'u Cyngor. Mae pwyllgorau archwilio hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn helpu i ddatblygu polisïau'r Cyngor er lles pobl yr ardal. Yn bennaf, mae'r pwyllgorau'n edrych ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor ond mae nhw hefyd yn gallu edrych ar faterion ehangach, gan gynnwys asiantaethau eraill. Mae disgwyl i'r agwedd olaf ddod yn bwysicach yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i gynghorau ddod i weithio'n fwy fwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol eraill i ddarparu gwasanaethau.

Sut mae archwilio'n cysylltu â'r broses o gymryd penderfyniadau?

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu y model llywodraeth leol o Arweinydd a Chabinet, golyga hyn fod nifer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu cymryd gan y Cabinet - grŵp o gynghorwyr etholedig sy'n cymryd penderfyniadau allweddol ynghylch polisïau a gweithdrefnau.

Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd y Cyngor Sir llawn, mae Cadeirydd y Cyngor, a'r Is-gadeirydd, yn chwarae rhan ddinesig drwy gynrychioli'r Cyngor mewn nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a thrwy lywyddu achlysuron dinesig.

Mae'r cynghorwyr hynny nad ydynt yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd y Cyngor, yn aelodau o'r Cabinet neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gallu cymryd rhan mewn 'Archwilio' - lle mae polisïau'r Cyngor a phenderfyniadau'r Cabinet yn gallu cael eu harchwilio'n fanwl.

Sut mae archwilio'n gweithio?

Mae archwilio'n ymddwyn fel 'ffrind beirniadol' i arweinwyr ac uwch swyddogion y Cyngor. Mae'n ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n fodd i bryderon y cyhoedd gael eu clywed. Er bod aelodau'r pwyllgor yn cael eu tynnu o holl bleidiau/grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor, mae archwilio ei hunan yn waith anwleidyddol gan bobl gyda meddwl agored sy'n penderfynu ar eu hagenda eu hunain, ac hefyd yn penderfynu sut y byddan nhw'n gwneud eu gwaith. Bydd Pwyllgorau Archwilio'n cyfarfod unwaith pob chwe wythnos er mwyn:

- adolygu polisïau'r Cyngor
- helpu datblygu polisiau newydd
- adolygu perfformiad y Cyngor
- adolygu'r penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet

Wrth wneud y gwaith uchod mae archwilio'n gobeithio cynorthwyo'r Cyngor i wireddu ei bedwar blaenoriaeth corfforaethol:

- Moderneiddio Addysg
- Newid Demograffig
- Adfywio
- Ffyrdd ac Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd

Mae gan Bwyllgorau Archwilio hefyd y grym i ofyn am adolygiad o benderfyniadau gymerwyd gan y Cabinet – cyn iddynt gael eu gweithredu - os ydynt yn meddwl y dylid rhoi ystyriaeth mwy dwys i'r penderfyniadau hynny (gelwir hynny'n 'Galw i Mewn').

Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor

Mae gan y Cyngor dri Phwyllgor Archwilio thematig:

- y Pwyllgor Archwilio Cymunedau
- y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
- y Pwyllgor Archwilio Perfformiad

Mae'r pwyllgorau'n cadw golwg ar y Cabinet a'i benderfyniadau. Mae nhw hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu polisiau'r Cyngor ac mewn monitro perfformiad y Cyngor. Mae pwyllgorau archwilio hefyd yn gallu sefydlu gweithgorau i gynnal adolygiadau sydyn neu i gynnal archwiliadau mwy dwys.

Os oes yna broblem sy'n peri pryder i chi'n bersonol, neu i'r gymuned lle'r ydych chi'n byw neu'n gweithio, ynghylch gwasanaeth penodol sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor (ar ei ben ei hun neu ar y cyd gyda sefydliad arall) ac os ydych yn meddwl y byddai o les i hyn gael ei archwilio'n fanwl gan bwyllgor archwilio, rhowch wybod i ni. Gallwch wneud hynny drwy gwblhau'r ffurflen fer ar gefn y daflen hon neu drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y ffurflen. Fe hoffen ni'n fawr iawn glywed gennych.

Ar y tudalennau canlynol rydym yn rhoi blas o'r gwaith mae archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i roi cipolwg i chi o sut y mae archwilio'n gallu helpu dylanwadu ar, a gwella, gwasanaethau a bywydau pobl.

Helpu i Wireddu Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor

Er mwyn helpu'r Cyngor i wireddu'i flaenoriaethau corfforaethol mae'r pwyllgorau wedi bod yn astudio nifer o ddarpar bolisïau a mentrau:

Fel rhan o'r agenda **Moderneiddio Addysg**, mae archwilio wedi bod yn ystyried yn fanwl bolisïau a chynigion drafft ar gyfer moderneiddio'r ffordd o ddarparu addysg i drigolion o bob oed yn y sir. Ymysg y meysydd o dan sylw eleni oedd trawsffurfio addysg ôl 16, rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif ac adolygiad o ysgolion cynradd ardal Edeirnion. Mae'r cynigion yn y meysydd penodol hyn yn dal i esblygu ac felly bydd archwilio'n cadw llygad arnynt yn ystod y flwyddyn nesaf.

I ateb pwysau **newidiadau demograffig,** heddiw ac yn y dyfodol, ar y gwasanaethau a ddarperir gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, mae archwilio yn ystyried pa mor effeithiol fydd dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i drigolion hŷn a bregus, megis ail-alluogi a chymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion. Trwy fonitro prosiectau peilot y mentrau hyn o'r dechrau mae archwilio wedi gallu tynnu sylw'n gynnar at unrhyw broblemau a ddaeth i'r fei, ac wedi gallu argymell newidiadau i'r gwasanaethau cyn iddynt gael eu cyflwyno i ddefnyddwyr eraill y gwasanaethau.

Roedd yn eithriadol o braf eleni croesawu defnyddiwr gwasanaeth a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion, a gofalwr defnyddiwr gwasanaeth arall a oedd wedi cymryd rhan yn yr un peilot, i siarad gyda'r Pwyllgor ac i glywed yn uniongyrchol ganddynt sut yr oedd y fenter hon wedi newid eu bywydau er gwell.

Mae gwireddu y flaenoriaeth **Adfywio'n** allweddol i ffyniant economaidd y Sir ac i wella ansawdd bywyd y trigolion, beth bynnag yw eu hoedran. Mae Adfywio'n fater eang ac mae'n dibynnu ar gael mewnbwn a chydweithrediad nifer o wasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol a diwydiant a busnesau preifat. Yn ystod 2010/11 cafodd Polisi Gwerthu Gorfodol y Cyngor ei archwilio i sicrhau ei fod yn cefnogi'r nod o adfywio'n cymunedau. Ystyriwyd hefyd allu'r Cyngor i reoli safleoedd carafanau'r sir er mwyn sicrhau eu bod, drwy gydymffurfio ag amodau a thelerau'u trwyddedau, yn cynorthwyo i adfywio'r sir trwy hybu twristiaeth. A hefyd sicrhau nad yw pobl yn byw'n barhaol ynddynt gan y gallai hynny achosi pwysau ar wasanaethau ac adnoddau prin y Cyngor.

Mae cynnal **Ffyrdd ac Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd** yn nod a blaenoriaeth yn y tymor hir. Mae'n rhaid cael seilwaith cryf a chadarn os yw'r Cyngor i wireddu'i flaenoriaeth adfywio. Yn ystod y misoedd diweddar cafodd goblygiadau Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i'r Cyngor eu harchwilio. Gadawodd tywydd garw'r ddwy flynedd diwethaf ei ôl ar ffyrdd yr ardal. O ganlyniad, cafodd rhaglen cynnal a chadw priffyrdd y Cyngor ei harchwilio i weld a yw'n gallu dygymod â thywydd garw'r gaeaf ac i wneud argymhellion gyda'r bwriad o wella'r gwasanaethau hyn ymhellach mewn pryd ar gyfer y gaeaf hwn.

Bod yn ‘ffrind beirniadol’ i arweinyddiaeth ac uwch swyddogion y Cyngor

“Diffinnir ffrind beirniadol fel person y mae rhywun yn ymddiried ynddo neu ynddi i ofyn cwestiynau treiddgar ... ac sydd yn cynnig beirniadaeth, fel ffrind, o waith y person hwnnw. Mae ffrind beirniadol yn cymryd amser i ddeall yn llawn gyd-destun y gwaith a’r canlyniadau y mae’r person neu’r grŵp yn ceisio eu cyrraedd. Mae’r ffrind yn hyrwyddwr ar gyfer llwyddiant y gwaith hwnnw"

O safbwynt archwilio, gellid diffinio ffrind beirniadol fel un â ‘phâr arall o lygaid’ i edrych ar bolisïau, cynigion neu benderfyniadau. Nid yw’n golygu gwrthwynebu popeth y mae swyddogion neu’r Cabinet yn ei awgrymu – gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu fel petai. Dull yw archwilio o sicrhau cydbwysedd a gwneud yn siwr y bydd unrhyw bolisiau a chynigion wedi eu hystyried yn drwyadl ac y byddant yn gwireddu addewidion i’r Cyngor ac i drigolion y sir. Mae’n ffordd o wella ac ychwanegu gwerth, mae’n ffurf o sicrhau ansawdd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae pwyllgorau archwilio’r Cyngor wedi ymddwyn fel ‘ffrind beirniadol’ wrth archwilio’r cynigion a’r polisiau sydd i fod i wella gwasanaethau’r Cyngor a’r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill megis yr Heddlu ac Iechyd.

Fel ffrind beirniadol, bu o gymorth i’r Cabinet ddatblygu strategaeth reoli tymor hir ar gyfer Ystâd Amaethyddol y Cyngor. Dechrau’r broses hon oedd ‘galw i mewn’ benderfyniadau’r Cabinet ynghylch yr Ystâd o dan weithdrefn ‘galw mewn’ y Cyngor. Anaml iawn y bydd hyn yn digwydd, a hynny ddim ond pan fydd pethau wedi mynd i’r pen. Ond, yn y pendraw, y canlyniad oedd datblygu strategaeth rheoli a rhesymoli gynaliadwy tymor hir ar gyfer Ystâd Amaethyddol y Cyngor, a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn rhaglenni rhesymoli asedau yn y dyfodol ledled y Cyngor. Bydd y derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthu asedau yn cael eu hail fuddsoddi yng ngwasanaethau y Cyngor ac yn ei asedau eraill.

Fel y soniwyd uchod, anaml y mae penderfyniadau’n cael eu ‘galw i mewn’. Fodd bynnag, mae archwilio’n perfformio’i rôl ‘ffrind beirniadol’ yn rheolaidd wrth ymateb i ymgynghori ynghylch polisiau a chynigion. Y rhan fwyaf o’r amser, bydd y Cabinet yn derbyn yr argymhellion a’r gwelliannau a awgrymir gan archwilio.

Adolygu perfformiad y Cyngor

Yn ystod y misoedd diweddar bu aelodau archwilio’n monitro perfformiad y System Cyfeirio ac Asesu o fewn Adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor. Trwy weithio yn agos â swyddogion bu i’r swyddogaeth archwilio fod o gymorth i gefnogi a gwella perfformiad yn y maes hwn ac o ganlyniad sicrhau nad yw’r un plentyn yn cael ei osod mewn perygl dianghenraid. Wrth weithio â’r swyddogion daeth yn amlwg fod y pwysau ar staff sy’n gweithio yn y gwasanaeth yma wedi cynyddu’n enfawr yn dilyn achos ‘Baby P’, a bod llawer mwy o gyfeiriadau i’r gwasanaethau plant a theuluoedd ledled y DU. Mae Archwilio’n dal i gadw golwg i sicrhau fod plant a theuluoedd yn cael eu gweld a’u hasesu cyn gynted â phosibl a bod staff y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cefnogi yn y gwaith hwn.

Helpu i sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn gwella

Nid yw archwilio'n cyfyngu'i hunan i'r Cabinet neu i swyddogion y Cyngor yn ei waith fel ffrind beirniadol. Mae'n cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cynrychiolwyr Iechyd a'r Heddlu wedi bod yn bresennol mewn pwyllgorau archwilio.

Bu cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynychu cyfarfodydd archwilio yn Sir Ddinbych yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, byth ers y penderfyniad i gau adnoddau cleifion preswyl yn Ysbyty Frenhinol Alecsandra, y Rhyl. Erbyn hyn mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn mynychu pwyllgorau archwilio'n rheolaidd.

O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, mae archwilio wedi gallu gwyntyllu pryderon a godwyd gan gleifion a gofalwyr ynghylch y gwasanaethau preswyl amgen sydd ar gael i gleifion henoed yn ardal y Rhyl. Mae hefyd wedi monitro datblygiad Gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref, sydd wedi'i gyflwyno i'r ardal fel gwasanaeth amgen i welyau cleifion preswyl, a'i ganlyniadau. Mae Archwilio wedi gofyn am gael gwybodaeth gyson - fel y mae yn datblygu – am y cynigon sy'n cael eu hystyried ynghylch gofal preswyl mewn ysbyty i gleifion yn ardal gogledd Sir Ddinbych. Yn hydref 2010 cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cynnal nifer o adolygiadau ar wasanaeth ledled Gogledd Cymru. Roedd Archwilio'n gallu lleisio pryderon dinasyddion ynghylch goblygiadau posib yr adolygiadau hyn wrth gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddiwedd 2010. O ganlyniad i'r pryderon a godwyd gan Sir Ddinbych, a chan siroedd a phartïon eraill â diddordeb, ymestynnodd y Bwrdd Iechyd ei broses ymgynghori ar rai o'r adolygiadau hyn.

Yn gynnar yn 2011 bu cynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru mewn cyfarfod archwilio i drafod y cynigion ar gyfer dyfodol plismona yng Ngogledd Cymru. Roedd swyddogion Gwasanaeth yr Heddlu ac Awdurdod yr Heddlu'n bresennol yn y cyfarfod i amlinellu eu cynlluniau ac i ateb cwestiynau. Roedd Cynghorwyr yn gallu cyflwyno'u sylwadau a'u hofnau, ac yn bwysicach, rhai eu trigolion, i gynrychiolwyr yr Heddlu. Roedd cynrychiolwyr y Cyngor a'r Heddlu o'r farn fod y drafodaeth yn un ddidwyll, yn eithriadol o ddefnyddiol ac yn sylfaen adeiladol i drafod a chydweithio yn y dyfodol.

Gwrando ar bryderon y cyhoedd

Mae'r enghreifftiau blaenorol yn dangos sut y mae archwilio'n gallu helpu i hyrwyddo a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd yn dangos sut y mae archwilio'n gallu lleisio pryderon y cyhoedd - fel eiriolwr y trigolion.

Yn ystod haf 2010, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ar sut i leihau ymhellach y gwastraff yng Nghymru sydd yn mynd i safleoedd tirlenwi. Un o'r cynigion oedd y byddai'n rhaid i gynghorau ddilyn dull dewisedig y Llywodraeth o gasglu gwastraff ailgylchu. Roedd hynny'n golygu y byddai'n rhaid i Sir Ddinbych fynd yn ôl at ei hen ddull ailgylchu, sef didoli min y ffordd yn hytrach na'r system ailgylchu newydd o fin a chadi sydd wedi'i chyflwyno'n ddiweddar. Ers cyflwyno'r system newydd, mae'r sir wedi llwyddo i ddod yn un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd yn ailgylchu'r gyfran fwyaf o wastraff domestig. Doedd y trigolion ddim yn fodlon gyda chynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd yn well ganddyn nhw system ailgylchu newydd y Cyngor sy'n syml ac yn effeithiol. Ysgrifennodd y Pwyllgor Archwilio a thrigolion at y Llywodraeth i'w lobio ar y mater. Talodd hynny yn y pendraw, a thynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr awgrym yn ôl o'u cynllun terfynol.

Mae'r Cyngor, ers blynyddoedd, wedi bod yn adnewyddu stoc tai'r cyngor er mwyn cyfarfod â Safonau Ansawdd Tai Cymru 2012. Mae Archwilio wedi cymryd diddordeb brwd ac agos yn y rhaglen eang hon o waith, yn enwedig yn dilyn pryderon a godwyd gan gynghorwyr ar y cychwyn ynghylch y berthynas rhwng tenantiaid a'r contractwyr oedd yn gwneud y gwaith. Drwy amlygu'r tensiynau'n gynnar, roedd archwilio'n gallu gweithio gyda swyddogion, a oedd yn eu tro'n gweithio gyda'r contractwyr a thenantiaid i adeiladu perthynas waith well a chryfach. O ganlyniad, daeth y tenantiaid yn fwy bodlon ag ansawdd y gwaith adnewyddu a'r ffordd yr oedd yn cael ei wneud.

Yn cael ei arwain gan gynghorwyr annibynnol eu barn

Mae'n bwysig pwysleisio fod archwilio'n cael ei arwain gan gynghorwyr annibynnol eu barn sydd, fel y soniwyd o'r blaen, yn rhoi gwleidyddiaeth plaid o'r neilltu er lles trigolion y sir. Aelodau'r pwyllgorau archwilio sy'n penderfynu beth i'w archwilio, pryd y dylid ei wneud a phaham. Mae swyddogion yn gallu awgrymu meysydd y dylai'r pwyllgorau archwilio eu hystyried, ond nid yw hynny o angenrheidrwydd yn golygu y bydd y pwyllgorau'n dilyn eu hawgrymiadau. Bydd archwilio'n ystyried pob cais ac yn penderfynu ar bob un yn ôl ei deilyngdod ei hunan. Efallai y bydd yn cymryd yr agwedd na ddylid archwilio rhai meysydd, yn enwedig y rhai sy'n perfformio'n dda, gan na fyddai hynny'n ychwanegu unrhyw werth ac na fyddai felly yn ddefnydd effeithiol o amser nac adnoddau. Fel cynrychiolwyr eu hardaloedd mae cynghorwyr yn ymwybodol o bryderon eraill o fewn eu cymunedau sydd, efallai, yn haeddu mwy o amser a sylw archwilio, ac a fyddai'n elwa o fwy o archwilio manwl. Felly, fe allant, ac y maent, yn awgrymu pa faterion y dylid eu harchwilio.

Mae'r enghreifftiau a ddangosir yn y daflen hon yn dangos sut y mae archwilio yn gallu rhoi grym gwirioneddol i'r bobl, a dyna pam yr hoffem ni i drigolion Sir Ddinbych, a phobl sy'n gweithio yn yr ardal, gysylltu â ni i gynnig meysydd, pynciau neu syniadau y dylid eu harchwilio. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, cwblhewch y ffurflen ar y dudalen nesaf neu cysylltwch â ni dros y ffôn neu drwy e-bost.

Eisiau gwybod mwy am y Cyngor ac ati?

Os yr hoffech wybod mwy am y Cyngor a'i wasanaethau, cael gwybodaeth am eich cynghorydd lleol neu bwy yn union sydd yn gwasanaethu ar y gwahanol bwyllgorau, gan cynnwys y pwyllgorau archwilio, cysylltwch â ni ar unrhyw un o'r manylion cysylltu a ddangosir ar gefn y daflen hon, neu ymwelwch â gwefan y Cyngor ar y cyfeiriad isod:

http://www.sirddinbych.gov.uk

Edrychwn ymlaen i glywed gennych!

Fe hoffem yn fawr iawn glywed oddi wrthych os ydych yn byw neu'n gweithio yn Sir Ddinbych

Oes yna unrhyw beth yr hoffech i archwilio gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Archwilio ei ystyried a pham.

A hoffech chi ddod i gyfarfod o Bwyllgor Archwilio?

HOFFWN / NA HOFFWN

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech gystal â rhoi'r manylion canlynol er mwyn i ni ymateb i'ch cais

Eich enw:
Cyfeiriad

Côd Post
E-bost
Rhif Ffôn

Gyda ymholiadau/ceisiadau, cysylltwch â'r:
Cydlynydd Archwilio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd,
Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, RHUTHUN LL15 1YN

Ffôn: (01824) 712554
E-bost: rhian.evans@sirddinbych.gov.uk
http://www.sirddinbych.gov.uk